

Rhyddhau delweddau o Barc Dŵr y Rhyl

Mae set o ddelweddau o barc dŵr ac atyniad hamdden y Rhyl wedi cael eu rhyddhau, gan ddarparu cipolwg unigryw ar sut y bydd yr atyniad mawr hwn yn edrych.

Datganodd Aelodau Cyngor Sir Ddinbych eu cefnogaeth i gynnig y parc dŵr yn ffurfiol yn gynharach eleni. Bellach, mae cynlluniau manwl yn cael eu paratoi cyn eu cyflwyno i Adran Gynllunio'r Cyngor fis Ebrill.

Mae Cyngor Tref y Rhyl hefyd yn darparu cefnogaeth ariannol ar gyfer y datblygiad.

Mae cyfle i bobl ddysgu mwy am y cynnig mewn sesiwn galw heibio sy'n cael ei threfnu gan bartneriaid hamdden y Cyngor, Alliance Leisure, yn sinema Vue y Rhyl ddydd Mercher, 22 Mawrth rhwng 11am a 7pm. Gall pobl weld y cynlluniau ar-lein hefyd, ar: www.datblygiadparcdwyrhyl.co.uk

Mae'r cynnig yn cynnwys gofod dŵr 1,200 metr sgwâr, gyda reidiau dŵr y tu mewn a'r tu allan, ffrâm chwarae a sleidiau dŵr i blant, man gweithgareddau uchder dwbl i blant, cyfleusterau dringo, ystafelloedd ar gyfer partïon, derbynfa, ardaloedd gwerthu, Pwll Sblasio y tu allan – dau bad sblasio gwlyb, ardaloedd ar gyfer gwelyau haul a therasau â chaffis i ddarparu adloniant chwarae gwlyb.

Bydd yno gabanau newid a thoiledau fel rhai ar y traeth, yn ogystal â bar a theras at gyda'r nos.

Bydd y datblygiad yn creu 60 o swyddi newydd ac yn denu 350,000 o ymwelwyr ychwanegol i'r dref bob blwyddyn. Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, bydd gwaith yn dechrau fis Medi 2017 a bydd y cyfleusterau newydd ar agor yn fuan yn 2019.

Bydd y cynigion, a luniwyd mewn partneriaeth ag Alliance Leisure, hefyd yn golygu y bydd parc sglefrio yn cael eu hadleoli. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â phobl ifanc leol i gydgyllunio'r parc sglefrio a bydd y cyfleuster newydd yn cynnig nodweddion newydd, mwy deniadol. Bydd pad sblasio a theras haul awyr agored llawer gwell yn dod yn lle'r pwll padlo, yn rhan o'r datblygiad.

Dywedodd Arweinydd Sir Ddinbych, y Cynghorydd Hugh Evans OBE, sydd hefyd yn Aelod Arweiniol dros yr Economi: “Rydyn ni’n falch iawn o gynnig cipolwg ar sut y bydd y parc dŵr newydd yn edrych i'r cyhoedd.

“Mae'r parc dŵr yn brosiect blaenllaw i'r Cyngor ac mae'r datblygiad yn elfen hanfodol o ymdrechion i gynyddu'r nifer sy'n ymweld â'r dref, creu swyddi a chynyddu faint sy'n cael ei wario yn yr economi leol. Mae hyn wedi bod yn allweddol i'n cynigion i ailddatblygu glan môr y dref ac mae'n rhan fawr o'n cynlluniau adnewyddu ar gyfer y Rhyl.

“Mae llawer o ddisgwyl am sut y bydd y parc dŵr newydd yn edrych ac rydyn ni'n gobeithio bod hyn wir yn rhoi blas i bobl ar y datblygiad uchelgeisiol a chyffrous sy'n cael ei gynnig.”

Dywedodd Maer y Rhyl, y Cynghorydd Sarah Roberts: “Mae'r parc dwr yn gam sylweddol ar y siwrnai o adfywio'r Rhyl. Mae hwn yn drobwynt i'r dref, gyda'r addewid am atyniad ymwelwyr o'r radd flaenaf, yr unig un o'i fath ar hyd arfordir Gogledd Cymru. Mae'n cynnig rhywbeth newydd a chyffrous i'r Rhyl, yn darparu cyfleon gwaith a chynyddu nifer yr ymwelwyr i'r dref drwy gynnig adnodd bywiog at ddefnydd ymwelwyr a phobl leol. Rydym yn annog pobl i daro golwg ar y cynlluniau, er mwyn gweld beth sy'n cael ei gynnig.